**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 1af Tachwedd 2017 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd B. Mellor (Chair)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Ms J. Hughes, Mrs P. M. Jones, Ms J. McAlpine, Ms V. Roberts, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

## 74. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, Mrs E. M. Chard, A. R. James, B. Jones, K. R. Jones, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, A. J. Rutherford a Dirprwy Glerc y Dref, Miss H. J. Windus.

## 75. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MEDI/HYDREF 2017

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| **Taliadau a wnaed ym mis Medi 2017** | | | |
| 341 | BT | 113.04 | Rhentu llinell rhyngrwyd |
| 253 | Sage & Co | 30.00 | Gwasanaethau Cyflogres Medi 2017 |
| 342a | HSBC | 5.50 | Taliadau banc 17 Gorffennaf i 16 Awst 2017 |
| 350 | Cyngor Sir y Fflint | 4,235.58 | Cyfraniadau Pensiwn a Chyllid Diffyg Awst 2017 |
| 349 | HMRC | 2,746.53 | Didyniadau Cyflogres Awst 2017 |
| 346 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,645.16 | Cyflogau Staff Medi 2017 |
| 347 | Gunsmoke Communications | 1,360.00 | Ffioedd Digwyddiadau Awst 2017 |
| 260 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Cyfraniad 6 o 12 Swyddog Apeliadau |
| 258 | Cyngor Sir Ddinbych | 686.00 | Y Dreth Gyngor 2017/18 Taliad 6 o 10 |
| 348 | Sioned Graham-Cameron | 291.16 | Costau Cyfieithu |
| 351 | BT | 146.59 | Taliadau rhentu |
| **Taliadau a wnaed ym mis Hydref** | | | |
| 356 | Shire Leasing Group | 379.33 | Prydles System Ffôn Avaya Ch3 2017/18 |
| 357 | BT | 85.55 | Galwadau a rhentu llinell |
| 358 | BT | 368.10 | Galwadau a rhentu llinell |

| Rhif Taleb | Enw Cyflenwr | Swm £ | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 252 | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 4,500.00 | Rhentu llawr uchaf Ffordd Wellington Ch1 2017/18 |
| 359 | Sage & Co | 30.00 | Gwasanaethau Cyflogres Hydref 2017 |
| 360 | HSBC | 20.95 | Taliadau Banc 17 Awst i 16 Medi 2017 |
| 361 | Cyngor Sir y Fflint | 4,141.80 | Cyfraniadau Pensiwn a Chyllid Diffyg Medi 2017 |
| 362 | HMRC | 2,557.42 | Didyniadau Cyflogres Medi 2017 |
| 364 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,644.97 | Cyflogau Staff Hydref 2017 |
| 363 | Gunsmoke Communications | 1,600.00 | Ffioedd Digwyddiadau Medi 2017 |
| 260 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Cyfraniad 7 o 12 Swyddog Apeliadau |
| 258 | Cyngor Sir Ddinbych | 686.00 | Y Dreth Gyngor 2017/18 Taliad 7 o 10 |
| 269 | Cyngor ar Bopeth | 2,000.00 | Cyfraniad 3 o 4 Cynghorydd Ynni 2017/18 |
| | **Cyfanswm Taliadau** | **41,107.00** | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 76. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w gwneud dros y misoedd i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflenwr | Disgrifiad o'r Gwasanaeth | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 367 | Cyngor Sir Ddinbych | Gosod 7 mainc newydd yn y Gerddi Coffa | 420.00 |
| 368 | Gwasg Helygain | Taflenni ar gyfer Digwyddiad Nadolig | 293.00 |
| 369 | Cyngor Sir Ddinbych | Trwsio goleuadau addurniadol | 157.57 |
| 370 | NWN Media Ltd | Hysbyseb Adfywio'r Rhyl | 300.00 |
| | | **Cyfanswm taliadau** | **£1,170.57** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'u llofnodi gan y Cadeirydd a'r Maer.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.*

## 77. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDI

Cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar fuddsoddiadau'r Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

## 78. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 30AIN MEDI 2017 A'R AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2017/18

Ymhellach i gofnod rhif 47 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Medi 2017, cyflwynodd Clerc y Dref ei gyd-adroddiad ef a'r Swyddog Ariannol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

Dangosodd yr adroddiad y perfformiad o gymharu â'r gyllideb ac adroddodd gyfanswm diffyg yn erbyn gwariant a gylllidebwyd o £98,000 ond bod y diffyg hwn yn cynnwys y cyfraniad arfaethedig o ryw £150,000 tuag at y parc dŵr newydd.

Esboniodd yr adroddiad y byddai'r cyfraniad hwn yn dod o arbedion yn erbyn y ddarpariaeth gyllidebol, cynnydd mewn incwm a defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor.

Gan gyfeirio at yr atodiadau, holodd aelod ynglŷn â'r swm a dalwyd ar gyfer gosod meinciau yn y Gerddi Coffa, y deallai bod darpariaeth ar eu cyfer mewn man arall.

***PENDERFYNWYD****:*

*(i) Derbyn yr adroddiad;*

*(ii) Bod Clerc y Dref yn ymchwilio cost gosod y meinciau ac adrodd i Gadeirydd yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd.*

*(iii) Bod Clerc y Dref yn cynnwys eitem ar y rhaglen nesaf i drafod cynhyrchu cylchlythyr cynnar.*

## 79. YMGYNGHORIAD: COMISIWN FFINIAU CYMRU – "AROLWG 2018 ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU – CYNIGION DIWYGIEDIG"

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ddogfen uchod a'r darnau a ddosbarthwyd yn y cyfarfod a gofynnodd am farn yr aelodau.

Cafwyd trafodaeth ar y cynigion ac fe ***BENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn ysgrifennu at y Comisiwn Ffiniau yn gofyn iddynt hystyried newid enw'r etholaeth arfaethedig o "Y Fflint a Rhuddlan" i "Y Rhyl a'r Fflint" i adlewyrchu mai'r Rhyl oedd yr anheddiad mwyaf ac mwyaf amlwg yn yr etholaeth seneddol (gyda rhai wardiau etholaethol unigol yn fwy na chymunedau eraill) ac y byddai'r newid arfaethedig yn gwneud lleoliad yr etholaeth yn haws ei adnabod o ystyried proffil uwch y Rhyl oherwydd ei statws fel tref glan y môr.*

## 80. PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYMRU – CYNIGION DRAFFT 2018

**[Cyn dechrau trafod yr eitem hon, datganodd yr holl aelodau a oedd yn bresennol eu buddiant personol yn y mater, ond cynghorwyd nad oedd y buddiant yn rhagfarnus yn unol â pharagraff 12(2)(b)(iv) Cod Ymarfer mabwysedig Cyngor Tref y Rhyl]**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) ar gynigion gan Banel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau i'w gwneud ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, ac effaith bosibl y cynigion ar gyllid y Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â materion cyllidebu.

Mynegodd yr aelodau anfoddhad bod y panel yn cynnig dileu disgresiwn Cynghorau Cymuned i benderfynu pa lwfansau a fyddai ar gael i'w haelodau unigol, a'r niwed posibl y gallai eu penderfyniadau arfaethedig eu cael ar syniad y cyhoedd o gynghorwyr lleol, boed yr aelodau unigol yn penderfynu derbyn y lwfansau ai peidio.

Holodd aelod a ellid gwneud y Lwfans Aelodau Uwch y byddai angen i'r Cyngor ei dalu yn daladwy i'r Maer fel Cadeirydd y Cyngor i wrthbwyso'r gostyngiadau yn lwfans y maer.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn paratoi ymateb drafft i'r ddogfen ymgynghorol i'w chymeradwyo gan y Cyngor.*

## 81. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL

Ymhellach i gofnod rhif 10 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14eg Mehefin 2017, dywedodd Clerc y Dref mewn perthynas â:

(i) Strategaeth Dinas y Rhyl – roedd y mudiad wedi newid ei drefn lywodraethu ac nid oedd angen cynrychiolydd ffurfiol o'r Cyngor Tref bellach er bod gwahoddiad agored yn bodoli i aelodau fynychu ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

(ii) Bwrdd Prosiect Parc Dŵr – oherwydd diffyg yn ei adroddiad i gyfarfod mis Mehefin, nid oedd cynrychiolydd newydd wedi ei benodi i'r bwrdd CSDd hwn ar ôl i gynrychiolydd a benodwyd beidio â sicrhau ail-etholiad i'r Cyngor.

Teimlai'r aelodau y dylid gofyn am adroddiad ar statws presennol y bwrdd a'i gylch gorchwyl cyn penodi.

***PENDERFYNWYD*** *mewn perthynas ag (i) uchod, cydnabod y sefyllfa ac mewn perthynas â (ii) uchod, gohirio'r penodiad er mwyn i Glerc y Dref fedru holi'r Cyngor Sir.*

## 82. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd materion brys i'w codi.

## 83. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

**84. NOSON WOBRWYO GALA'R MAER**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn ymwneud â digwyddiad 2017 a'i bryderon ynglŷn â digwyddiadau'r dyfodol yn medru cyflawni nodau ac amcanion y Cyngor ar ei ffurf bresennol.

Cytunodd yr aelodau bod y digwyddiad yn dirywio o flwyddyn i flwyddyn a bod angen ei arolygu a ***PHENDERFYNWYD*** *cyfeirio hyn at yr Is-bwyllgor Dinesig a Digwyddiadau Cymdeithasol iddo wneud argymhellion.*

**85. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

**86. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Cadeirydd:…………….……..

Dyddiad:………………………